Centre of expertise on child sexual abuse

Gwella dealltwriaeth o raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol

# Nodweddion a phrofiadau plant a phobl ifainc a fynychodd Ganolfan Atgyfeirio ar gyfer Ymosodiadau Rhywiol Y Santes Fair, Manceinion Fwyaf

## Adolygiad o 986 o ffeiliau achos – Crynodeb

Kairika Karsna
a Dr Rabiya
Majeed-Ariss

Ebrill 2019

St Mary's Centre
Sexual Assault Referral Centre



csacentre.org.uk

# Crynodeb

**Mae'r adroddiad hwn yn casglu ynghyd tystiolaeth a gasglwyd o ffeiliau achos plant a phobl ifainc rhwng 0 ac 17 oed a fynychodd Ganolfan Atgyfeirio ar gyfer Ymosodiadau Rhywiol Y Santes Fair (SARC) ym Manceinion Fwyaf ar gyfer archwiliad meddygol fforensig ar ôl datgelu achos o gam-drin rhywiol neu amheuaeth ohono. Cyfeiria'r data at bob un o'r 986 o archwiliadau meddygol fforensig a gynhaliwyd ar unigolion o dan 18 oed sy'n byw yn ardal Manceinion Fwyaf a gafodd fynediad at y gwasanaeth rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2015.**

Tynnwyd data yn ôl-weithredol o ffeil achos bapur pob un o'r 'defnyddwyr gwasanaeth' gan gynnwys data am eu cefndir a data demograffeg amdanynt, sut y cawsant eu hatgyfeirio at SARC, natur y cam-drin plentyn yn rhywiol (CSA) yr adroddwyd ei fod wedi digwydd a'r bobl yr amheuir y maent wedi'i gyflawni. Seiliwyd y data y dewiswyd ei dynnu ar y 'templed casglu data', sef set ddata graidd a ddatblygwyd gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (Canolfan CSA) i safoni ac i wella dulliau cofnodi data CSA mewn asiantaethau.

Bu'r astudiaeth achos hon yn rhan o gynllun peilot ar gyfer y templed casglu data; ei ddiben oedd archwilio gwerth ac ymarferoldeb ar gyfer asiantaethau o ran casglu data craidd yn systematig am natur CSA, y bobl sy'n rhan o'r broses a'r sawl yr effeithiwyd ganddi, a gwasanaethau cysylltiedig. Er y casglwyd y data hwn gan gofnodion cyfredol, diben yr astudiaeth yw dangos yr hyn y gallai asiantaethau eraill ei gasglu a'i adrodd arno pe baent yn mabwysiadu'r templed casglu data fel rhan o ymarfer bob dydd.

Sefydlwyd ym 1986, SARC Y Santes Fair yw'r ganolfan unigol fwyaf yn y Deyrnas Unedig. Hon oedd y ganolfan gyntaf o'i math a ddatblygwyd i gynnal archwiliadau meddygol o safon uchel mewn ardal benodedig ac arbenigol ar gyfer dynion, menywod a phlant sydd wedi profi ymosodiadau rhywiol.

Mae gan ganfyddiadau'r astudiaeth berthnasedd ehangach am eu bod yn cynrychioli profiadau nifer fawr o blant y cafwyd pryderon yn ymwneud â cham-drin rhywiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio nad ydynt yn cynrychioli CSA mewn canolfannau na lleoliadau eraill. Nid yw'r mwyafrif llethol o ddioddefwyr CSA yn datgelu eu camdriniaeth ac nid ydynt yn cael eu hadnabod gan weithwyr proffesiynol, ac nid yw llawer o'r sawl y cânt eu hadnabod yn mynychu SARC. Ar ben hynny, cynhelir archwiliadau meddygol ar blant mewn SARC ar ôl iddynt ddatgelu achosion o gam-drin rhywiol drwy gyffwrdd neu amheuaeth ohono; felly nid yw profiadau o CSA heb gyffwrdd wedi'u cynrychioli yn yr astudiaeth.

> Seiliwyd y data y dewiswyd ei dynnu ar y 'templed casglu data', sef set ddata graidd a ddatblygwyd gan y Ganolfan CSA

## Prif ganfyddiadau am y ffordd y defnyddir y templed casglu data

Mae templed casglu data'r Ganolfan CSA wedi'i ddylunio i gael ei ddefnyddio gan ystod eang o asiantaethau; ni ragwelir y bydd pob asiantaeth yn mabwysiadu'r templed yn ei gyfanrwydd oherwydd bod data mewn rhai meysydd yn fwy tebygol o gael ei gasglu gan rai gwasanaethau nac eraill.

Ar ddechrau'r prosiect, cymharodd SARC Y Santes Fair ei ffurflen casglu data â'r templed casglu data gan ystyried ei bod wedi bod yn casglu data yn systematig mewn 23 o 36 o feysydd y templed. Tynnwyd data o'r meysydd hynny o'r ffeiliau achos papur.

Yn gyffredinol, bu lefelau'r data yr oedd modd ei dynnu yn uchel; ar gyfer y mwyafrif o feysydd, roedd data ar goll neu'n aneglur mewn llai na 10% o'r meysydd. Bu'r bylchau yn y data yn tueddu bod yn ffeiliau'r defnyddwyr gwasanaeth rhwng 0 ac 11 oed; gall hyn fod yn anochel am fod plant iau yn llai abl i ddatgelu'r hyn a allai fod wedi digwydd iddynt, ac yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio at SARC am symptomau ffisegol efallai nad oeddent o ganlyniad i gamdriniaeth.

Awgryma'r astudiaeth na fyddai mabwysiadu rhannau helaeth o dempled casglu data y Ganolfan CSA yn y dyfodol yn rhoi baich ychwanegol ar SARC Y Santes Fair am fod y data perthnasol yn cael ei gasglu'n glir ac yn systematig.

Fel rhan o'r astudiaeth, adolygodd SARC Y Santes Fair y ffordd y cafodd cwestiynau eu geirio yn y templed casglu data. O ganlyniad, gwneir mân addasiadau i'r templed cyn iddo gael ei lansio yn nes ymlaen eleni.

## Prif ganfyddiadau o'r data

### *Gwybodaeth am blant sy'n mynychu SARC*

- Roedd 86% o'r plant a'r bobl ifainc a fynychodd SARC Y Santes Fair ar ôl datgelu eu bod wedi profi ymosodiadau rhywiol neu fod amheuaeth ohono yn ferched. Fodd bynnag, ymhlith plant o dan 12 oed, roedd chwarter o'r cyfanswm yn fechgyn. Yr oedran canolrifol ar gyfer bechgyn a fynychodd SARC oedd 6 oed, roedd yn 13 oed ymhlith merched.
- Bu'r mwyafrif llethol (79%) o ddefnyddwyr gwasanaeth o gefndir gwyn Prydeinig. O'i gymharu â'r boblogaeth leol, roedd y sampl yn tangynrychioli grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- Roedd dros chwarter o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi'u hadnabod fel 'plant mewn angen' neu wedi'u cynnwys ar gynllun amddiffyn plant gan awdurdod lleol naill ai ar y pryd neu'n flaenorol – sef cyfran lawer uwch nag ymhlith y boblogaeth plant ym Manceinion Fwyaf.
- Roedd cyfrannau plant oed ysgol ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu (1.5% ac 16%) yn sylweddol uwch na chyfrannau'r plant ag anableddau a oedd yn mynychu ysgolion gwladol ym Manceinion Fwyaf. Adroddodd dros chwarter o ddefnyddwyr gwasanaeth o oed ysgol fod ganddynt anghenion ychwanegol yn yr ysgol. Roedd anableddau dysgu ac anghenion ychwanegol yn fwy cyffredin ymhlith bechgyn.
- Adroddodd nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth rhwng 12 ac 17 oed fod ganddynt faterion iechyd meddwl: adroddodd 40% fod ganddynt anawsterau iechyd meddwl, 35% hunan-niweidio a 12% ceisio hunan-ladd rywbryd cyn iddynt fynychu SARC.

### *Gwybodaeth am natur a chyd-destun y gamdriniaeth a adroddwyd*

- Bu’n llai tebygol bod gwybodaeth am natur y gamdriniaeth yn cael ei chofnodi yn ffeiliau achos plant iau (rhwng 0 ac 11 oed).
- Gan adlewyrchu’r ffaith bod y rhain yn ddefnyddwyr gwasanaeth SARC, adroddodd y mwyafrif helaeth - 90% - o ffeiliau achos gam-drin a oedd yn gyson â thrais neu gamdriniaeth dreiddiol.
- Adroddodd tri chwarter o ddefnyddwyr gwasanaeth i gamdriniaeth gael ei chyflawni mewn lleoliad domestig, ac adroddodd bron dwy ran o dair i’r gamdriniaeth gael ei chyflawni yn eu cartrefi eu hunain neu yng nghartref y cyflawnwr (os yn wahanol). Adroddodd 28% o’r sawl rhwng 12 ac 17 oed i gamdriniaeth gael ei chyflawni yn yr awyr agored.
- Roedd hyd y gamdriniaeth yn aneglur mewn 41% o’r ffeiliau achos, gan gynnwys dros dri chwarter o ffeiliau’n ymwneud â phlant rhwng 0 ac 11 oed. Mewn achosion lle roedd gwybodaeth ar gael, adroddwyd bod mynychu SARC ar ôl achos o gamdriniaeth unigol ar ei lefelau uchaf. Roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o fynychu ar ôl cyfnodau hwy o gamdriniaeth: adroddodd dros chwarter am gamdriniaeth a oedd wedi para yn hwy na blwyddyn.

### *Gwybodaeth am unigolion yr amheuir eu bod wedi cyflawni camdriniaeth*

- Nid oedd unrhyw wybodaeth am unigolion yr amheuir eu bod wedi cyflawni camdriniaeth mewn dros bumed o ffeiliau achos plant rhwng 0 ac 11 oed.
- Adroddodd un allan o wyth defnyddiwr gwasanaeth ei fod wedi dioddef camdriniaeth gan fwy nag un cyflawnwr. Y grŵp yr amheuir fwyaf o gyflawni camdriniaeth ar y cyd neu mewn grwpiau oedd dieithriaid neu gymheiriaid newydd i’r defnyddiwr gwasanaeth: adroddwyd bod 30% o gyflawnwyr yr amheuir eu bod wedi cyflawni cam-drin rhywiol mewn parau neu grwpiau wedi adnabod y defnyddiwr gwasanaeth am lai na 24 awr.
- Roedd dim ond 3% o gyflawnwyr yr amheuir eu bod wedi cyflawni cam-drin rhywiol yn fenywod, ac amheuir traean ohonynt o gyflawni camdriniaeth ar y cyd â dyn. Dynion oedd y mwyafrif llethol o gyflawnwyr yr amheuir eu bod wedi cyflawni cam-drin rhywiol yn erbyn pob grŵp oedran ac ym mhob math o berthynas rhwng dioddefwr a chyflawnwr.
- Roedd dros chwarter o’r sawl yr amheuir eu bod wedi cyflawni camdriniaeth yn ffrindiau neu’n gymheiriaid i’r defnyddwyr gwasanaeth, ac roedd pumed ohonynt yn ddieithriaid neu’n gymheiriaid newydd. Roedd pumed o’r sawl yr amheuir eu bod wedi cyflawni camdriniaeth yn rhieni, ac roedd pumed arall yn berthnasau eraill (gan gynnwys brodyr a chwiorydd a mam-gus a thad-cus).

> Roedd dros chwarter o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn rhan o gynllun ‘plant mewn angen’ neu gynllun amddiffyn plant rywbryd

- Yn gyffredinol, cofnododd ffeiliau achos raniad weddol gyfartal rhwng unigolion nad oeddent yn aelodau o'r teulu yr amheuir eu bod wedi cyflawni camdriniaeth (52%) ac unigolion yr oeddent yn aelodau o'r teulu (48%) - rhieni, brodyr a chwiorydd, perthnasau eraill a ffrindiau o'r teulu - cynrychiolodd 87% o unigolion yr amheuir eu bod wedi cyflawni camdriniaeth yn erbyn plant rhwng 0 ac 11 oed, roedd 81% o unigolion yr amheuir eu bod wedi cyflawni camdriniaeth yn erbyn defnyddwyr gwasanaeth rhwng 12 ac 17 oed y tu allan i'r teulu - ffrindiau, partneriaid, cymheiriaid neu ddieithriaid.
- Roedd bron traean (31%) o'r sawl yr amheuir eu bod wedi cyflawni cam-drin rhywiol yn blant eraill o dan 18 oed.
- Y categorïau yr adroddodd gamdriniaeth ganddynt fwyaf oedd camdriniaeth yn erbyn merched rhwng 0 ac 11 oed gan rieni; camdriniaeth yn erbyn merched rhwng 12 ac 17 oed gan ffrindiau sy'n oedolion neu gymheiriaid hir sefydlog; camdriniaeth yn erbyn merched rhwng 12 ac 17 oed gan ddieithriaid sy'n oedolion neu gymheiriaid newydd; a chamdriniaeth yn erbyn merched rhwng 12 ac 17 oed gan ffrindiau neu gymheiriaid hir sefydlog o dan 18 oed. Cofnodwyd yn y categorïau hyn dros ddwywaith yn fwy aml nag unrhyw gategori arall.
- Mewn nifer fach o achosion (5%), adroddwyd bod yr unigolyn yr amheuir ei fod wedi cyflawni camdriniaeth wedi cysylltu â'r dioddefwr ar-lein yn y man cychwyn.
- Adroddwyd bod yr unigolyn yr amheuir ei fod wedi cyflawni camdriniaeth wedi hwyluso camdriniaeth drwy gyffwrdd gan gyflawnwyr eraill mewn 5% o achosion.

### *Gwybodaeth am lwybrau atgyfeirio a datgelu*

- Mynychodd bron traean o ddefnyddwyr gwasanaeth SARC ymhen 24 awr o'r gamdriniaeth. Daeth bechgyn i sylw gwasanaethau yn hwyrach, a mynychodd dros ddwy ran o bump dros fis ar ôl i'r gamdriniaeth gael ei chyflawni.
- O bell ffordd, y ffynhonnell fwyaf rheolaidd o atgyfeirio at SARC oedd yr Heddlu: atgyfeiriwyd 85% o'r defnyddwyr gwasanaeth ganddynt, atgyfeiriwyd 12% gan wasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol ac roedd 3% wedi atgyfeirio eu hunain.
- Gwnaethpwyd dros hanner (52%) o'r cyswllt cychwynnol â'r Heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol gan rieni. Atgyfeiriodd gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd blant iau yn fwy aml, ac atgyfeiriwyd merched hŷn gan athrawon.

### *Gwybodaeth am wasanaethau SARC Y Santes Fair*

- Siaradodd 89% o ddefnyddwyr gwasanaeth ag ymgynghorydd trais rhywiol annibynnol (ISVA) ar ôl yr archwiliad meddygol.
- Ymhlith defnyddwyr gwasanaeth yr oedd angen sgrinio ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol arnynt, derbyniodd dwy ran o dair (65%) y sgrinio hwn yn SARC, ac atgyfeiriwyd y lleill at glinig lleol.

> Mewn dros hanner o achosion, gwnaethpwyd y cyswllt cychwynnol â'r Heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol gan rieni

**Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn www.csacentre.org.uk/research-publications/scale-and-nature-of-child-sexual-abuse-and-exploitation/**

## Gwybodaeth am yr awdur

Mae Kairika Karsna yn uwch-swyddog ymchwil a gwerthuso yn y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Mae Dr Rabiya Majeed-Ariss yn swyddog ymchwil cysylltiol yng Nghanolfan Atgyfeirio ar gyfer Ymosodiadau Rhywiol Y Santes Fair.

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CSA) yn dymuno gweld plant yn cael byw'n rhydd rhag bygythiad a niwed cam-drin rhywiol. Ein nod yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy gamau atal gwell ac ymateb gwell.

Rydym ni'n dîm amlddisgyblaethol, sy'n cael ei ariannu gan y Swyddfa Gartref a'i gynnal gan Barnardo's, ac rydym yn gweithio'n agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, rydym ni'n annibynnol a byddwn yn herio unrhyw rwystrau, rhagdybiaethau, tabŵau a ffyrdd o weithio sy'n ein hatal rhag cynyddu ein dealltwriaeth a gwella ein hagwedd at gam-drin plant yn rhywiol.

Er mwyn mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, mae'n rhaid i ni ddeall beth sy'n ei achosi, ei gwmpas, graddfa ac effaith. Gwyddom lawer am gam-drin plant yn rhywiol ac rydym wedi gwneud cynnydd i ymdrin â hyn, ond mae nifer o fylchau yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o hyd sy'n cyfyngu pa mor effeithiol yr eir i'r afael â'r mater.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | @csacentre
**www.csacentre.org.uk**

20853sc19